



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Llangybi
Llangybi
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6DQ**

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2013

Cyd-destun

Mae'r ysgol ym mhentref Llanybi rhyw bum milltir o Bwllheli yng Ngwynedd ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ar ddechrau mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 72 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys tri o ddisgyblion meithrin. Mae hyn yn ostyngiad ar yr 87 o ddisgyblion oedd yn yr ysgol yn ystod yr arolygiad blaenorol. Addysgir y disgyblion gan dair athrawes amser llawn ac un ran-amser.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Glan y Môr, Pwllheli ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Daw 82% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae canran y disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol yn fychan iawn ac yn is na chanran yr awdurdod lleol.

Mae o gwmpas 9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn is na'r canran sirol ac yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn datgan nad yw'r ardal y mae'n ei gwasanaethu yn un o dan anfantais economaidd. Mae tua 10% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac mae hyn yn sylweddol is na'r ffigwr cenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid yw'r ysgol wedi cofnodi unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Ni fu unrhyw newid yn arweinyddiaeth yr ysgol nag yn y staff addysgu parhaol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanybi yn 2012-2013 yn £3,630 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Gynradd Llanybi yn safle 69 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg a hynny'n gyson ers tair blynedd;
- bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn frwdfrydig ac awyddus i ddysgu;
- profiadau cyfoethog ac ysgogol yn cael eu darparu ar draws yr ysgol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth;
- ansawdd yr addysgu yn gyson dda a'r staff yn cydweithio'n dda;
- gweledigaeth y pennaeth wedi arwain at ethos gofalgwr, hapus a diogel o fewn yr ysgol a
- bod parch amlwg a pherthynas iach rhwng y disgyblion a'r holl staff.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth wedi llwyddo i greu gweledigaeth effeithiol sydd wedi arwain at safonau da tros gyfnod o amser;
- data yn cael ei ddadansoddi'n effeithiol er mwyn monitro perfformiad a bod y llywodraethwyr yn ymwybodol o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu â'r teulu o ysgolion;
- y broses hunanarfarnu wedi gwreiddio ym mywyd yr ysgol, yn cynnwys yr holl staff a bod yr arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda;
- diwylliant o gydweithio effeithiol ar draws yr ysgol; a
- bod yr ysgol wedi ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn dda.

Argymhellion

- A1 Lleihau'r gagendor rhwng y bechgyn a merched hŷn yn arbennig ym mhob agwedd ar lythrennedd o ran cyrraedd y lefelau uwch
- A2 Gwella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion
- A3 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr er mwyn eu galluogi i weithredu yn fwy effeithiol fel cyfeillion beirniadol
- A4 Ysgrifennu adroddiadau sydd yn fwy arfarnol o effaith gwaith yr Ysgol
- A5 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael rhychwant addas o brofiadau

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae safonau llafar y disgyblion yn y Gymraeg yn gadarn gyda bron pob disgybl yn siarad yn hyderus ac yn rhugl mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. Yn gyffredinol, nid oedd eu medrau llafaru Saesneg yr un mor gadarn â'r Gymraeg. Mae bron pob un yn gwrando'n dda ac yn parchu safbwyntiau disgyblion eraill.

Mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn darllen yn unol â'u hoedran a'u gallu. Gallant ateb cwestiynau syml yn gywir am y llyfrau y maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn uchel yn hyderus a chyda mynegiant ystyrlon yn y ddwy iaith. Maent yn gallu dewis testunau addas o amrywiaeth o ffynonellau i wella'u gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu ysgrifennu darnau annibynnol mewn amrywiaeth o destunau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu geirfa eang a gallant ysgrifennu darnau estynedig o waith diddorol sy'n llawn dychymyg yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, mae llawysgrifen a chyflwyniad yn llyfrau lleiafrif o'r disgyblion yn anghyson yng nghyfnod allweddol 2.

Mae bron yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd da.

Yn 2012, roedd y ganran o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn perthynas â'u medrau iaith, mathemateg a phersonol mewn cyfuniad (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) yn uwch o'i gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Yn yr un modd, roedd y cyfartaledd o ddisgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig ym mhob maes dysgu yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. O gymharu canlyniadau Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn 2012 ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn gyson yn y 25% uchaf o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig.

Cyflawnodd pob disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 y lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2012. Mae'r ysgol wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn uwch na

chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru yn y pedwar pwnc. Mae'r patrwm hyn wedi bodoli bron yn ddieithriad am y pedair blynedd ddiwethaf.

O gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 yr ysgol yn 2012 ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn yr 25% uchaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% uchaf o ran y Gymraeg.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. O ran cyrraedd y lefelau uwch, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhywiau yn 2012 gyda'r merched yn gwneud yn well na'r bechgyn ym mhob pwnc, yn arbennig felly yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r gwahaniaeth yn sylweddol waeth na'r teulu o ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, tros bedair blynedd, mae merched yn perfformio'n sylweddol well na'r bechgyn.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Mae disgyblion o bob oed yn datblygu medrau dysgu annibynnol da ac yn cydweithio'n effeithiol. Un o gryfderau'r ysgol yw gallu'r disgyblion i ffocysu a chanolbwyntio ar dasg am gyfnodau estynedig ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yr ysgol yn naturiol gwrtais a chroesawgar; maent yn falch o'u bro ac o gymuned yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cyfrannu at y gymuned leol ac yn derbyn llawer ohoni.

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ddyddiol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen ei wneud i gadw'n iach o ran bwyta. Maent yn ymwybodol o'u hawl i fod yn ddiogel ac yn deall beth ddylent ei wneud os oes rhywbeth yn eu poeni. Yn anad dim mae'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac mae'r teimlad o hunan-werth ac o barch at eraill yn dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar awydd a gallu'r disgyblion i weithio'n galed ac i wella'u cyrhaeddiad.

Mae llais y disgyblion yn gadarn yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn drefnus ac yn glir ei fwriad a rhennir dyletswyddau a chyfrifoldebau rhwng yr aelodau yn bwrpasol. Mae wedi cael effaith ar ddatblygiad yr ysgol gan arwain penderfyniadau ynglŷn â phrynu offer newydd a gwella adnoddau allanol. Mae gan aelodau'r cyngor ddealltwriaeth dda iawn o drefn cynnal pwyllgor ac o'r angen i weithredu mewn modd cynhwysol. Cyflwynant adroddiadau cynhwysfawr yn dymhorol i'r corff llywodraethol.

Mae presenoldeb yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim ac mae prydlondeb yn dda.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r gwaith cynllunio yn gyson dda ar draws yr ysgol ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfarfod â holl ofynion y cwricwlwm. Mae'r staff yn cyd-gynllunio'n

Ilwyddiannus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae cynlluniau gwaith buddiol yn sicrhau bod y cwricwlwm yn gytbwys ac yn ennyn diddordeb disgyblion. Defnyddir themâu yn effeithiol i gyflwyno'r cwricwlwm a dyrennir amser priodol er mwyn sicrhau cyflawniad. Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach i bob disgybl.

Mae cynllunio manwl yn sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, meddwl, cyfathrebu a rhif da. Mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion yn briodol.

Mae'r cwricwlwm yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw'r gwaith diddorol ar destunau hanes lleol megis chwedlau Cybi. Defnyddia'r ysgol arddangosfeydd lliwgar i hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda. Mae'r ysgol yn trefnu nifer o ddigwyddiadau diwylliannol gan gynnwys cyfleoedd i gystadlu'n rheolaidd yn eisteddfodau'r Urdd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn y Cyfnod Sylfaen a hybu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd defnyddio'r we yn ddiogel yn dda. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion cyfnod allweddol 2 gystal. O ganlyniad, nid oes ganddynt rychwant digonol o brofiadau, yn arbennig o ran datblygu medrau modelu a thrin data.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy, addysg amgylcheddol a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus. Hyrwyddir dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol drwy waith thematig ar wledydd eraill fel Ghana ac Ethiopia.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Trwy ddefnyddio ystod o ddulliau addas, mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cadw diddordeb yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd da. Mae pob un o'r staff yn sicrhau bod ymddygiad yn dda iawn, ac mae hyn yn creu diwylliant ar gyfer dysgu llwyddiannus. Mae'r ysgol yn defnyddio oedolion ychwanegol yn effeithiol, yn arbennig i wrando ar ddarllen.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Maent wedi llwyddo i greu diwylliant o ddisgwyliadau uchel sydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod y canran sy'n cyrraedd y lefelau uwch na'r disgwyl yn gyson uwch nag ydynt mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn llwyddo i gau'r gagendor rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n effeithiol. Mae'r disgyblion yn rhan o'r broses gosod targedau unigol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymdrech ac ymroddiad mewn gwersi. Mae'r athrawon yn rhoi adborth llafar buddiol yn ystod gwersi. Serch hynny, nid yw pob athro yn ddigon cyson yn dangos y ffordd iddynt wella'u gwaith trwy farcio.

Mae gan yr ysgol systemau safoni cadarn, sy'n sicrhau bod asesiadau'n gywir. Mae pob un o'r athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn dda gan ddefnyddio cofnodion

asesu yn fwriadus. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda gan athrawon i lywio'u gwaith cynllunio ac i olrhain perfformiad unigol.

Mae adroddiadau'r ysgol i rieni yn glir ac yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion ynghyd â'r camau nesaf er mwyn gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Crëwyd cymuned hapus a chartrefol ble mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel. Mae profiadau dysgu, amseroedd cylch a gwasanaethau yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol a moesol y disgyblion yn effeithiol. Darperir cyfleoedd da i ddisgyblion fod yn rhan naturiol o'r gymuned leol, ac i fagu agwedd ofalgar at eraill trwy weithgareddau elusennol a diwylliannol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol ag asiantaethau arbenigol allanol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at les y disgyblion ac yn darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth priodol i'r staff. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar a darperir rhaglenni ymyrraeth priodol i'r rhai sydd angen cefnogaeth benodol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn gosod targedau cyraeddadwy ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y disgyblion. Cânt eu harfarnu a'u diweddarau yn gyson mewn ymgynghoriad â'r disgyblion a'r rhieni.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos cartrefol, gofalgarn sy'n sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel. Cynigir mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl ynghyd ag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r gwasanaethau a'r gwersi Amser Cylch yn llwyddiannus wrth drafod cydraddoldeb, rhagfarn a hiliaeth ac mae'r disgyblion yn ymwybodol o wahaniaethau ac amrywiaeth o fewn cymdeithas.

Mae amrywiaeth pwrpasol o adnoddau yn yr ysgol sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. Mae adnoddau allanol effeithiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac mae ystod o ddsbarthiadau a chyfleusterau pwrpasol ar gyfer nifer y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r safle a chedwir yr adeilad a'r tir oddi amgylch mewn cyflwr da a thaclus. Un nodwedd hyfryd yw'r defnydd o'r ardd ymarferol a luniwyd ar y cyd gyda'r Clwb Ffermwy'r Ifanc lleol sy'n cyfoethogi profiadau addysgol pob disgybl.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Rhennir y weledigaeth hon gan bob aelod o'r staff a'r corff llywodraethol yn llwyddiannus. Adlewyrchir y weledigaeth yn amlwg o fewn blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol ynghyd â themâu trafod y cyfarfodydd staff a'r

corff llywodraethol. Mae'r weledigaeth wedi llwyddo i greu awyrgylch hapus, ofalus, ysgogol a diogel lle mae llais disgyblion yn cael lle amlwg iawn a'i werthfawrogi.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn derbyn adroddiadau yn rheolaidd ar weithrediad y cynllun gwella ysgol. Mae gan y cadeirydd ddealltwriaeth briodol o ddata'r ysgol a pha mor dda mae'r ysgol yn cyflawni o gymharu ag ysgolion tebyg. Serch hynny, nid yw gallu'r llywodraethwyr i herio'r ysgol fel cyfeillion beirniadol ac i fonitro pynciau ac arsylwi gwersi wedi datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol cyfredol yn dda ac mae wedi canolbwyntio'n briodol ar agweddau allweddol, megis llythrennedd a datblygu ffordd o fyw iach.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r broses hunanarfarnu wedi gwreiddio ym mywyd yr ysgol ac yn cynnwys yr holl staff yn llwyddiannus. Mae'r dadansoddiad o ddata yn rhan annatod o'r broses. Cesglir tystiolaeth yn effeithiol trwy arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae'r prosesau hyn wedi helpu'r ysgol i adnabod yn glir ei chryfderau a'r rhan fwyaf o'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn dangos bod yr arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda. Serch hynny, nid yw yn ddigon arfarnol ar bob achlysur.

Mae deilliannau'r prosesau hunan arfarnu yn llywio blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol yn llwyddiannus. Mae'r cynllun yn canolbwyntio yn dda ar godi safonau ac ehangu'r ddarpariaeth. Cyfeiria'r cynllun yn effeithiol at y camau i'w cymryd, y meini prawf llwyddiant, amseriad a chyfrifoldeb, trefniadau monitro a chyllidebu. Bron yn ddieithriad, mae'n cynnwys targedau mesuradwy buddiol mewn perthynas â chynnydd a gwelliannau mewn safonau disgyblion.

Mae cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon ac mae'r rhain yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn bwydo nôl i weddill y staff wedi mynychu cyrsiau ac yn rhannu arfer dda yn effeithiol. Datblygir diwylliant o gydweithio fel tîm yn dda ac mae hyn yn helpu'r ysgol i dyfu fel cymuned ddysgu effeithiol. Mae rhwydweithio effeithiol gydag ysgolion y dalgylch ac mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth y staff a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr gyda rhieni a gofalwyr. Mae Cymdeithas Cyfeillion Cybi yn codi arian sylweddol a chyson i'r ysgol a gwneir defnydd da o'r cyllid ychwanegol er budd y disgyblion. Mae cysylltiadau agos â'r gymuned yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac mae'r ysgol yn elwa o ddiddordeb parhaol cyn-ddisgyblion yn yr ysgol. Daw aelodau o'r gymuned i mewn i'r ysgol i wrando ar ddarllen ac mae hyn yn meithrin parch at oedolion a datblygu medrau llythrennedd yn dda.

Mae'r cyswllt gyda'r Cylch Meithrin sy'n bwydo'r ysgol yn dda ac yn hwyluso trosglwyddiad esmwyth y plant. Mae trefniadau effeithiol hefyd yn eu lle ar gyfer

trosglwyddo disgyblion i'r ysgol gyfun leol. Mae'r trefniadau hyn yn paratoi'r disgyblion hyn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn manteisio ar bartneriaeth effeithiol gyda gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer datblygu staff, ymateb i anghenion disgyblion a chodi safonau.

Mae'r ysgol ynghlwm â nifer o gymunedau dysgu proffesiynol sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r prosiectau gydag ysgolion eraill i ddatblygu medrau cyfathrebu ac ymchwiliol trwy'r defnydd o iPads ac i hyrwyddo medrau meddwl trwy rifedd.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol. Maent wedi sicrhau lefel addas o staffio i weithredu gofynion y cwricwlwm yn effeithiol. Gwneir defnydd da o arbenigedd penodol y staff ar draws yr ysgol a defnyddir cymorthyddion yn llwyddiannus i hyrwyddo addysgu a dysgu. Mae holl staff yr ysgol yn gweithio'n effeithiol fel tîm i rannu arfer orau ac i sicrhau bod unrhyw ddiffygion yn cael eu nodi fel blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol. Mae trefniadau priodol ar gyfer sicrhau amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu.

Mae systemau rheoli perfformiad yr ysgol yn gadarn ac yn cwrdd ag anghenion datblygiad proffesiynol yr athrawon yn dda. Er bod y cynorthwywyr dosbarth hefyd yn cael cyfleodd da i ddatblygu'n broffesiynol, nid oes trefniadau rheoli perfformiad ffurfiol ar eu cyfer.

Mae'r uwch dîm rheoli a'r corff llywodraethol yn monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol ac mae cyswllt da rhwng gwariant a'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun datblygu. Mae'r adnoddau yn addas i ofynion yr addysgu ac yn cael eu hadnewyddu'n gyson yn ôl blaenoriaethau'r ysgol.

O ganlyniad i'r safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion a'r nifer o gryfderau yn ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Llwyddodd pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig.

Mae medrau iaith, mathemateg a phersonol mewn cyfuniad (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) yn uwch o'i gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Yn yr un modd, mae cyfartaledd y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig ym mhob maes dysgu yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru.

O gymharu canlyniadau Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn 2012 ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn gyson yn y 25% uchaf o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig.

Cyflawnodd pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 y lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2012. Mae'r ysgol wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru am y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r canran a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru yn y pedwar pwnc. Mae'r patrwm hyn wedi bodoli bron yn ddiethriad am y pedair blynedd ddiwethaf.

O gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 yr ysgol yn 2012 ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn yr 25% uchaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% uchaf o ran y Gymraeg.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. O ran cyrraedd y lefelau uwch mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhywiau yn 2012 gyda'r merched yn gwneud yn well na'r bechgyn ym mhob pwnc, yn arbennig felly yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r gwahaniaeth yn sylweddol waeth na'r teulu o ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, tros bedair blynedd, mae merched yn perfformio'n sylweddol well na'r bechgyn.

Gan mai bychan iawn yw nifer y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim nid yw'n ystyrlon i gyfeirio at dueddiadau yn eu perfformiad mewn cymhariaeth â disgyblion eraill.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd 35 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac mae pob un yn cytuno:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae bron bob un yn credu:

- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; a
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae ychydig yn credu:

- nad yw pob plentyn yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae'r ymatebion ar gyfer pob cwestiwn yn cymharu'n ffafriol iawn â'r darlun cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 28 o ymatebion i'r holiadur gan rieni:

Mae bron bob un yn credu:

- bod yr addysgu'n dda;
- bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; ac yn
- fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf yn credu:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae ychydig yn credu:

- nad yw disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol; ac
- nad yw ei plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Nid yw'r ymatebion ar gyfer y mwyafrif o gwestiynau yn cymharu'n ffafriol â'r darlun cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Maldwyn Pryse	Arolygydd Cofnodol
Carolyn Thomas	Arolygydd Tîm
Jeremy Turner	Arolygydd Lleyg
Gwynn Griffiths	Arolygydd Cymheiriaid
Elin Owen	Enwebai'r Ysgol

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.